# Crynodeb o Arfarniad Ysgolion Ffederal Betws Gwerful Goch a Bro Elwern 2024-2025

**Rydym yn adolygu'n gyson ble'r ydym fel ysgolion, a sut y gallwn wella'n barhaus i sicrhau ein bod darparu'r addysg orau bosib. Mae sicrhau amgylchedd sydd yn hybu lles a hapusrwydd pob disgybl yn flaenoriaeth cyson yn ein ysgolion ac yn ran o'n gweledigaeth. Trwy'r broses o hunan-arfarnu ac adolygu parhaus ar draws yr ysgolion, rydym yn adnabod ein blaenoriaethau ar gyfer gwelliant.**

## Ein Cryfderau

### Arweinyddiaeth

- Mae gan yr ysgolion weledigaeth glir wedi'w chreu gyda chyfraniad ein holl randdeiliad.
- Mae gan yr ysgolion fframwaith hunan arfarnu rheolaidd, sy'n sicrhau bod adolygu parhaus yn rhan annatod o fywyd yr ysgolion.
- Mae disgwyliadau uchel yn cael eu gosod ar draws yr ysgolion, ac mae cyd-weithio effeithiol yn treiddio drwy'r ddwy ysgol o ddydd i ddydd.
- Mae llais y disgybl yn gryf o fewn yr Ysgolion.
- Mae staff yn arwain cynghorau'r ysgolion h.y. Cyngor eco, Cyngor Ysgol, Siarter iaith a dewiniaid digidol, ac yn cyfarfod yn rheolaidd gan drefnu digwyddiadau yn yr Ysgol a'r gymuned.

### Cwricwlwm

- Mae ein cwricwlwm yn cynnig amrywiaeth o brofiadau cyfoethog sy'n meithrin disgyblion sy'n ymfalchio yn eu Cymreictod a diwylliant ein hardal leol.
- Rydym yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau er engraifft Edina Trust i gyfoethogi ein darpariaeth ysgol y goedwig.
- Rydym yn cefnogi datblygiad proffesiynnol holl staff yr ysgolion yn gyson, ac yn sicrhau ein bod yn mynychu hyfforddiant amrywiol yn gyson er mwyn datblygu ein cwricwlwm yn barhaus.
- Mae ein cwricwlwm gydlynus er mwyn gwireddu ein gweledigaeth i sicrhau bod ein dysgwyr yn ddinasyddion uchelgeisiol, mentrus, creadigol, egwyddorol a iach.

### Addysgu a dysgu

- Mae gennym gwricwlwm eang, cytbwys a diddorol sydd yn datblygu'r plentyn cyflawn.
- Mae awyrgylch croeswgar a diogel ar draws yr ysgolion ble mae cyfle i ffynnu, mewn awyrgylch o gyd-barch, gwerthfawrogiad a dathlu llwyddiannau ein gilydd.
- Mae blaenoriaeth cyson yn cael ei roi ar ddatblygu sgiliau llythrennedd rhifedd a digidol y disgyblion ar draws y cwricwlwm yn unol a'u hoedran a'u gallu.

### Lles, tegwch a chynhwysiant

- Mae'r ysgolion yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i ddisgyblion gymeryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored gan gynnwys yr ysgol goedwig, chwaraeon amrywiol, ac edrych ar ol tir yr ysgol a'r gymuned.
- Mae strwythurau a phrosesau effeithiol ar gyfer cefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Mae trefniadau effeithiol i asesu a chefnogi lles disgyblion, gan gynnwys arfarnu ein darpariaeth yn flynyddol.

# Blaenoriaethau 2023-24




### Datblygu sgiliau llafar Cymraeg ein dysgwyr

- Mae llawer o'r disgyblion wedi datblygu hyder wrth ddefnyddio patrymau iaith.
- Mae Data holiaduron siarter iaith yn dangos cynnydd.

### Sicrhau datblygiad a chysondeb addysgu cymhwysedd digidol

- Podlediad ysgol wedi'w sefydlu.
- Defnydd hyderus o Google class-room a seesaw yn y ddwy ysgol.
- Ardal TGCh ym mhob dosbarth.

### Codi safonau darllen Saesneg


- Tanysgrifio i raglen cefnogi sillafu Saesneg
- Creu cynllun sillafu i'r dysgwyr hyn er mwyn eu cynorthwyo i ddatblygu hyder wrth ddatgodio geiriau/adnabod patrymau sillafu geiriau aml ddefnydd.

### Sicrhau bod llais y plentyn yn flaenllaw wrth arwain yr Ysgol.

- Rydym yn sicrhau bod pob disgybl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed a'u cynnwys.
- Rydym yn parhau i gefnogi'r disgyblion i ddatblygu agwedd bositif tuag at yr ysgol a chwarae rhan flaenllaw yn natblygiad yr ysgol.



# Blaenoriaethau 2024-25



**Dyma drosolwg o feysydd datblygu ysgol y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn academaidd 2024-2025 er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r addysg orau i'n disgyblion.**

### Blaenoriaeth 1- Datblygu sgiliau ysgrifennu estynedig yn y Gymraeg ar Saesneg

Sut? Cynnig profiadau i'r disgyblion sydd yn sbarduno, ac yn ennyn eu diddordeb mewn ysgrifennu. Bwriadwn wahodd awduron a beirdd i'r ysgolion er mwyn cyd-weithio hefo'r plant. Bwraidwn ddatblygu llawysgrifen, geirfa, a def-nydd ein disgyblion o idiomau, ansoddeiriau a chymariaethau.

### Blaenoriaeth 2-Datblygu cyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored

Rydym yn bwriadu ehangu ar gyfleoedd y plant i ddysgu yn yr awyr agored drwy fuddsoddi mewn offer, a chynnig profiadau megis Ysgol y goedwig.

### Blaenoriaeth 3: Datblygu gwytnwch, a med-dylfryd disgyblion drwy firenio ac addasu systemau cefnogi lles yn yr Ysgol.

Mae lles yn hynod o bwysig i ni yn y ddwy ysgol, ac ryden ni eisiau sicrhau bod ein disgyblion yn datblygu Sylfaen cadarn er mwyn eu galluogi i fod yn ddysgwyr gydol oes, eu bod yn hyderus wrth ddysgu, yn gwynebu heriau hefo meddylfryd positif, ac yn dathlu, ac ymfalchio yn eu llwyddiannau.

### Is– flaenoriaeth: Parhau i ddatblygu sgiliau darllen a llythrennedd Saesneg dysgwyr hynaf y ddwy Ysgol (blwyddyn 3-6).

Mae gennym gynllun sillafu newydd, ac ryden ni wedi buddsoddi mewn rhaglen i ddatblygu sgiliau sillafu a darllen Saesneg y plant.